Eleni eto bu'r plant wrthi'n brysur yn codi arian i gronfa Plant Mewn Angen. Daeth nifer i'r ysgol ar y diwrnod mewn gwisg ffansi a chafwyd orig yn nghwmni'r consuriwr Terwyn Tomos yn ystod y bore. Bu casglu mawr ar ddarnau ceiniogau a dwy geiniogau, digon a mwy i amgylchynu'r ysgol gyfan. Noddwyd nifer o'r plant - rhai yn beicio, eraill yn rhedeg a dwy o ferched blwyddyn 5 yn ymprydio. Yn ystod y prynhawn cafwyd eitemau gan blant blwyddyn 5 a 6 a stondinau yn gwerthu llyfrau, teganau, cacennau ac ati. Codwyd £200 i'r gronfa.

Ar nos Wener, Tachwedd 29ain cynhaliwyd cwis dan nawdd y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon Daeth nifer o dimau ynghyd - un rhiant ac un plentyn ymhob tîm ac ar ddiwedd yr ornest Mrs E Thomas a'i merch Bethan oedd yn fuddugol. Noson ddifyr a hwyliog eleni eto.

Bellach daeth pantomeim cwmni Chwarae Teg yn rhan o weithgareddau 'Dolig yr ysgol. Aeth llond bws o'r plant i Theatr y Werin ar Ragfyr 6ed a chael mwynhad llwyr gyda'r "Brenin Arthur a'r Blewyn Hir".

Bydd wythnos olaf y tymor yn un hynod o brysur. Cynhelir parti'r ysgol ar nos Lun 16eg o Ragfyr ac y mae si ar led y bydd Siôn Corn yn galw heibio. Nos Fawrth yn yr Eglwys bydd ein gwasanaeth Nadolig ac ar y nos Fercher byddwn yn mynd o gwmpas y pentref i ganu carolau a'r casglîd yn mynd tuag at achos da. Câiff y babanod gyfle i weld sioe Nadolig y Frigâd Dân a bydd y disgyblion oll yn mynd i Sinema'r Commodore yn Aberystwyth yn ôl yr arfer yr adeg hon o'r flwyddyn. Erbyn hynny bydd pawb yn sicr yn barod am wyliau.